# AMODAU TRWYDDED TAI AMLFEDDIANNAETH (HMO)

Mae’r amodau canlynol yn hanfodol ac yn ffurfio rhan o drwydded HMO ac mae’n rhaid cydymffurfio â hwy.

1.0 ADDASRWYDD DEFNYDD

Mae’n rhaid i ddeilydd trwydded sicrhau bod yr eiddo’n addas ar gyfer y defnydd arfaethedig ac i’r diben hwn mae’n rhaid iddynt:

1.1 **SICRHAU** bod gan yr eiddo lwybr dianc addas pe bai tân yn yr eiddo.

1.2 **SICRHAU** bod dulliau eraill i atal tân yn yr eiddo gan gynnwys larymau mwg addas a digonol a’u bod mewn cyflwr da.

1.3 **DARPARU** datganiad i’r awdurdod am gyflwr a lleoliad larymau mwg pan fo gofyn amdano.

2.0 MATERION RHEOLI

2.1 **SICRHAU** bod y tŷ’n cael ei oruchwylio’n addas ac i’r diben hwn mae’n rhaid sicrhau bod rhywun yn ymweld â’r eiddo o leiaf unwaith yr wythnos i **SICRHAU** nad oes unrhyw beth yn groes i reoliadau rheoli tai amlfeddiannaeth.

2.2 **CADW** cofnod ysgrifenedig o ymweliadau o’r fath, gan gynnwys cyfeiriadaeth at y materion canlynol:

Dogfennau perthnasol yn cael eu harddangos
Dim rhwystrau i lwybrau dianc pan fo tân
Llwybrau dianc pan fo tân mewn cyflwr da
Offer ymladd tân a larymau tân yn gweithio’n gywir
Yr adeiladau’n strwythurol gadarn
Cyflenwad dŵr (gan gynnwys isadeiledd) a system ddraenio mewn cyflwr da ac yn lân
Gosodiadau dŵr sy’n debygol o gael eu difrodi gan rew wedi’u hamddiffyn yn briodol
Ardaloedd cyffredin yn lân ac mewn cyflwr da
Canllawiau a chanllawiau grisiau mewn cyflwr da
Gorchuddiadau grisiau wedi’u gosod ac mewn cyflwr da
Ffenestri ardaloedd cyffredin mewn cyflwr da
Gosodiadau golau yn addas ac mewn cyflwr da
Adeiladau allanol, iardiau, cwrt blaen a gerddi yn cael eu cynnal mewn cyflwr glân a thaclus
Waliau, ffensys a rheiliau ffin mewn cyflwr da a diogel
Nifer addas o finiau sbwriel ar gael
Cofnodi unrhyw aflonyddwch a achoswyd gan breswylwyr yr adeiladau i breswylwyr eraill neu gymdogion.

2.3 **DARPARU** cofnodion ysgrifenedig i’r awdurdod o’r ymweliadau goruchwylio pan fo gofyn.

2.4 **PENODI** unigolyn cyfrifol i **SICRHAU** bod y system canfod tân yn cael ei brofi a'i gynnal yn briodol.

**2.5 CADW** cofnodion clir mewn llyfr log o'r holl brofion a chynnal a chadw system canfod tân. Mae'n rhaid i'r llyfr log gynnwys y canlynol:

Enw'r unigolyn cyfrifol.
Manylion trefniadau cynnal a chadw a phrofi. Mae'n rhaid cynnal profion bob 6 mis o leiaf a chadw tystysgrifau yn y llyfr log
Dyddiad ac amser pob caniad larwm tân boed y larwm yn canu heb achos, neu o ganlyniad i brawf, ymarfer tân neu dân go iawn.
Achosion ac amgylchiadau caniadau larwm tân heb achos
Dyddiad, amser a math pob prawf.
Dyddiad, amser a math pob nam a diffyg.
Dyddiad a math yr holl waith cynnal a chadw
Dyddiad ac amser pob gwiriad gweledol o'r system (o leiaf unwaith yr wythnos) a chanlyniadau'r gwiriadau hynny.

2.6 **DARPARU** y llyfr log er mwyn i'r awdurdod ei archwilio pan fo gofyn.

2.7 **SICRHAU** bod yr holl ddodrefn sydd wedi'i glustogi a'r deunyddiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r denantiaeth mewn cyflwr diogel. Dylid cyfeirio at Reoliadau Dodrefn a Deunyddiau (Diogelwch Tân) (Diwygiad) 1993 neu ddatganiadau statudol eraill all gymryd eu lle.

2.8 **DARPARU** datganiad i'r awdurdod am ddiogelwch dodrefn a deunyddiau o'r fath pan fo gofyn.

2.9 Pan fo cyfleusterau nwy yn yr adeiladau rhaid **CYFLWYNO** tystysgrif diogelwch nwy ar gyfer yr HMO gan beiriannydd nwy Cofrestredig er mwyn i'r awdurdod ei harchwilio'n **FLYNYDDOL.**

2.10 **CYFLWYNO** tystysgrif i'r awdurdod gan Beiriannydd Nwy Cofrestredig bob tro y bydd teclynnau nwy yn cael eu haddasu neu phan fydd tystysgrif yn cael ei roi gan y peiriannydd yn datgan diogelwch y teclynnau.

2.11 **SICRHAU** bod y teclynnau trydanol sydd ar gael i breswylwyr eu defnyddio mewn cyflwr diogel.

2.12 **DARPARU** datganiad i'r awdurdod gan drydanwr cymwysedig yn nodi diogelwch y teclynnau trydanol.

2.13 **CYFLWYNO** tystysgrif gan drydanwr cymwysedig bob tro y mae'r cylchedau a/neu declynnau yn cael eu hamnewid neu eu haddasu mewn unrhyw fodd gan gadarnhau diogelwch y cylchedau a/neu'r teclynnau.

2.14 Gwneud popeth o fewn eich gallu sy'n rhesymol i **SICRHAU** nad yw'r preswylwyr (a'u hymwelwyr) yn ymddwyn mewn modd sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, niwsans neu boendod i unrhyw un sy'n preswylio, yn ymweld neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd

gyfreithiol yn yr ardal. Esiampl o hyn yw gofyn am eirdaon gan unigolion sy'n dymuno byw yn yr adeiladau.

2.15 **DARPARU** blwch post unigol a diogel i bob un sy'n rhentu.

2.16 Yn ychwaneg at ofynion y Rheoliadau Rheoli perthnasol i arddangos enw, cyfeiriad a rhif ffôn deilydd y drwydded a/neu'r unigolyn sy'n rheoli'r eiddo rhaid **DARPARU** man amlwg yn y neuadd gyffredin gydag uned arddangos yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

Y drwydded
Tystysgrif prawf dilys ar gyfer canfod tân, rhybudd pan fo tân a system golau mewn argyfwng
Tystysgrif prawf dilys ar gyfer yr holl declynnau nwy (os oes rhai)